Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

National Assembly for Wales
Public Accounts Committee

Dr Andrew Goodall
Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/Prif Weithredwr GIG Cymru, Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

23 Gorffennaf 2019

Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014

Annwyl Dr Goodall

Diolch am eich ymatebion cynhwysfawr i gwestiynau'r Aelodau yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 15 Gorffennaf. Oherwydd cyfyngiadau amser, gwnaethoch gytuno i ymateb i gwestiynau nas cyrhaeddwyd. Mae'r cwestiynau yn ymwneud â staff asiantaethau yn GIG Cymru ac fe'u ceir drosodd. Yn achos rhai ohonynt, efallai y byddwch yn teimlo bod eich papur tystiolaeth eisoes yn ymdrin â rhywfaint o'r hyn sy'n berthnasol. Os felly, byddem yn croesawu unrhyw beth sy'n ehangu ar hynny yng nghyd-destun y cwestiynau penodol isod gyda chroesgyfeiriadau at y papur tystiolaeth fel y bo'n briodol.

Edrychaf ymlaen at eich ymateb.

Yn gywir,

Nick Ramsay AC
Cadeirydd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddArchwilio@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilio
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddPAC@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddPAC
0300 200 6565

Staff Asiantaeth

C1: Rydych wedi gwybod faint o arian sy'n cael ei wario gan GIG Cymru ar staff asiantaeth ond nid oes gennych wybodaeth gyson a manwl i ddeall y defnydd o'r gweithlu sy'n sail i'r gwariant. Beth fydd y newidiadau a gyflwynir drwy eich protocol casglu data diwygiedig yn ei ddweud wrthych, er enghraifft am faint o staff asiantaeth sy'n cael eu cyflogi, eu graddau a'u harbenigeddau, pa mor aml y cânt eu defnyddio a'r cyfraddau cyflog y maent yn eu derbyn?

a. Beth yw'r prif heriau yr ydych yn eu hwynebu o ran casglu ac asesu'r data hyn? A oes gennych y dechnoleg a'r adnoddau sydd eu hangen i oresgyn yr heriau hyn?
b. Sut a phryd yr ydych yn rhagweld y bydd dadansoddiad manylach yn cael ei gyhoeddi?

C2: Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yn amlygu pwysigrwydd gallu asesu cost staff asiantaeth a'r defnydd ohonynt ochr yn ochr â chostau staffio dros dro eraill. Beth yr ydych yn ei wneud i gasglu a dadansoddi data ar draws GIG Cymru ar gost mathau eraill o staff dros dro a'r defnydd ohonynt, fel goramser a defnyddio banciau mewnol a staff locwm mewnol?

a. Beth mae eich dadansoddiad data yn ei ddweud wrthych chi, a sut yr ydych yn eu defnyddio i helpu i leihau lefel gyffredinol gwariant y GIG ar staff asiantaeth?

C3: Gwariodd GIG Cymru £110 miliwn y llynedd yn cyflogi staff asiantaeth fel staff cyflenwi ar gyfer swyddi gwag. Mae hyn yn 77% o gyfanswm y gwariant ar staff asiantaeth. Faint o swyddi meddygol a nyrsio gwag y cyflogwyd staff asiantaeth iddynt y llynedd, a beth oedd graddau neu arbenigeddau y swyddi hyn?

a. Faint o swyddi nyrsio a swyddi meddygol sy'n wag ar hyn o bryd?

C4. Beth sy'n cael ei wneud, ar lefel genedlaethol, i wella recriwtio a chadw meddygon a nyrsys?

a. Beth yw'r rhwystrau y mae GIG Cymru yn eu hwynebu wrth recriwtio meddygon a nyrsys newydd?

C5: Er bod cyfanswm y gwariant ar staff asiantaeth meddygol wedi'i ledaenu ar draws GIG Cymru, cynyddodd mewn tri o'r chwe chorff iechyd mwyaf y llynedd. A

yw Cylchlythyr Hydref 2017 Llywodraeth Cymru yn cael yr effaith yr oeddech yn ei disgwyl ar gost staff asiantaeth meddygol a'r defnydd ohonynt?

a. Pam nad yw gwariant ar staff asiantaeth meddygol wedi gostwng ym mhob un o'r byrddau iechyd ers cyhoeddi'r Cylchlythyr?

b. Un o nodweddion allweddol y Cylchlythyr yw cyflwyno capiau pris. Pa mor aml y mae byrddau iechyd yn torri'r cap pris, a pham mae hyn yn digwydd?

C6. Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn dangos y cynnydd yr oedd GIG Cymru yn ei wneud o ran defnyddio staff asiantaethau nyrsio drwy'r Contract Fframwaith Cymru Gyfan yn hytrach na thrwy'r asiantaethau 'heb gontract' sy'n ddrutach yn gyffredinol. Yn eich papur tystiolaeth i'r Pwyllgor hwn, rydych yn 27 dweud bod 96% o staff asiantaethau nyrsio yn cael eu defnyddio drwy'r Contract Fframwaith. Felly pam y bu cynnydd o 27% mewn gwariant ar asiantaethau nyrsio (i £65.4 miliwn) y llynedd ar draws y chwe bwrdd iechyd mwyaf? a. Pa effaith y mae gweithredu Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) wedi'i chael ar wariant asiantaethau nyrsio, a pham?

C7. Mae eich tystiolaeth ysgrifenedig yn nodi ystod eang o brosiectau i reoli ac costau staff asiantaeth a'r defnydd ohonynt. Sut yr ydych yn sicrhau bod y prosiectau hyn wedi mynd i'r afael â galwad yr Archwilydd Cyffredinol am arweinyddiaeth ac aelodau ar lefel ddigon uchel, cymorth ariannol, staffio a thechnolegol digonol, a chysylltiadau agos â threfniadau cynllunio'r gweithlu ehangach y GIG?